



Canllaw i rieni  
a gofalwyr



# Cynllunio ar gyfer y Dyfodol



Mae'r llyfryn yma yn eich cyflwyno i'r gwasanaethau y mae Gyrfa Cymru yn eu cynnig i bobl ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig.



[www.gyrfacymru.com](http://www.gyrfacymru.com)



0800 028 48 44



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## Amdanom Ni

Gyrfa Cymru yw'r gwasanaeth gwybodaeth a chyfarwyddyd gyrfaoedd i bob oedran. Rydym yn gweithio'n agos gyda gwasanaethau Awdurdodau Lleol, ysgolion, colegau, darparwyr dysgu seiliedig ar waith a sefydliadau partner i gefnogi pobl ifanc sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig.

Mae gennym ymrwymiad i gyfle cyfartal a chafodd ein holl wasanaethau eu cynllunio i ddiwallu anghenion unigol. Bydd Gyrfa Cymru yn darparu gwybodaeth mewn fformat addas ar gyfer anghenion eich plentyn. Gall hyn gynnwys trefnu i lenyddiaeth fod ar gael mewn Braille, print bras, dull "hawdd ei ddeall", ar dâp sain neu yn newis iaith y plentyn.



## Ble i ddod o hyd i ni

Gallwch ddod o hyd i ni ym mhob ysgol ac uned anghenion arbennig, ysgolion uwchradd a cholegau addysg bellach. Mae gennym hefyd ganolfannau gyrfaoedd ledled Cymru.

### Cysylltu â ni...



Gyrfacymru.com: Mae gan ein gwefan wybodaeth a gweithgareddau i helpu pobl o bob oedran.



Ffôn: 0800 028 48 44



e-bost: [post@gyrfacymru.com](mailto:post@gyrfacymru.com)



Ffôn Testun: 0800 0029 489 (ar gyfer cwsmeriaid byddar neu drwm eu clyw)



@gyrfacymru

Mae gan rieni a gofalwyr rôl bwysig wrth helpu eu plant i gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Rydym yn croesawu'r cyfle i weithio'n agos gyda chi ac athrawon eich plentyn, gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill i roi'r gefnogaeth sydd ei hangen arno.

### **Mae'r llyfryn yma'n dweud wrthydh:**

Am y broses Cynllunio Pontio ar gyfer plant sydd â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig.

- Sut mae Cynghorwyr Gyrfa yn gweithio gyda phobl ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig yn yr ysgol ac ar ôl iddynt adael yr ysgol.
- Y broses Cynllunio Pontio.
- Yr hyn y gall eich mab/merch ei wneud ar ôl cyrraedd diwedd addysg orfodol ar ddiwedd blwyddyn 11.
- Ble gallwch gael mwy o gyngor a chefnogaeth.



### **Sut y gallwn helpu**

Gall pobl ifanc fod angen gwybodaeth neu help gan ystod eang o bobl pan fyddant yn gwneud penderfyniadau am yr hyn maent eisiau ei wneud ar ôl cyrraedd oedran ymadael â'r ysgol ar ddiwedd blwyddyn 11.

Mae gan Gyrfa Cymru Gynghorwyr Gyrfa gyda chymwysterau a hyfforddiant ychwanegol a phrofiad o weithio gyda phobl ifanc gydag anghenion addysgol arbennig.

Gall Cynghorwyr Gyrfa gefnogi pobl ifanc a'u rhieni drwy ddarparu gwybodaeth am yrfaeod, cyngor a chymorth ymarferol.

Mae gwybodaeth a gweithgareddau defnyddiol ar ein gwefan **[www.gyrfacymru.com](http://www.gyrfacymru.com)**.



## Cynllunio Pontio

Os oes gan eich plentyn ddatganiad o anghenion addysgol arbennig byddwch wedi cael gwahoddiad bob blwyddyn i gyfarfod adolygu yn yr ysgol i drafod cynnydd y plentyn. Gelwir yr adolygiad ym mlwyddyn 9 yn Adolygiad Pontio. Gall fod nifer o weithwyr proffesiynol fel athrawon, gweithwyr cymdeithasol pontio a seicolegwyr addysgol yn y cyfarfod, yn ogystal â Chynghorydd Gyrfa Cymru, fydd yn gweithio gyda chi i helpu i gynllunio ar gyfer dyfodol eich mab neu ferch.

Dylai'r cyfarfod Adolygu yma ganolbwyntio ar eich dymuniadau chi a'ch plentyn, eich barn a'ch gobeithion ar gyfer eu dyfodol. Gofynnir i chi a'ch plentyn am eich barn. Bydd yr ysgol yn paratoi Cynllun Pontio yn yr Adolygiad. Bydd hyn yn nodi darpariaeth bresennol yr ysgol a darpariaeth briodol yn dilyn ysgol. Bydd yn bwysig iawn eich bod yn rhan o'r cyfarfod felly mae'n bwysig paratoi ar gyfer y cyfarfod.

Mae pob Adolygiad ar ôl blwyddyn 9 yn edrych ar y Cynllun Pontio. Bydd y Cynghorydd Gyrfa yn gweithio gyda chi o flwyddyn 9 ymlaen i'ch helpu chi a'ch plentyn i drosglwyddo o'r ysgol.

## Dyma rai o'r cwestiynau y gallwch fod am eu gofyn yn y cyfarfod

- A fydd yn rhaid i fy mhlentyn adael yr ysgol yn 16 oed?
- Pa wybodaeth y gallaf ei chael am opsiynau ar gyfer y dyfodol? Er enghraifft, cyfleoedd yn ymwneud ag addysg, hyfforddiant, cyflogaeth, gwaith gwirfoddol a gwasanaethau gofal cymdeithasol oedolion.
- Beth allaf ei wneud i helpu i baratoi ar gyfer yr amser pan fydd fy mhlentyn yn ymadael â'r ysgol?
- Pa gymwysterau gaiff eu cynnig?
- A oes unrhyw gyfleoedd ar gyfer profiad gwaith?
- Pa bynciau y gall fy mhlentyn eu hastudio?
- Beth sy'n digwydd os yw fy mhlentyn ar feddyginiaeth neu'n cael triniaeth iechyd arbenigol?
- Pa grantiau neu fudd-daliadau sydd ar gael?
- A all fy mhlentyn gael help gyda chludiant?
- Pryd mae byw yn annibynnol neu fyw â chymorth yn dod yn opsiwn?
- Pryd mae coleg preswyl arbenigol yn dod yn opsiwn?
- Pa gefnogaeth fyddwn ni'n ei chael i wneud yn siŵr fod symud allan o'r ysgol yn llwyddiant?





## Beth mae'r Cynghorydd Gyrfa yn ei wneud?

O Flwyddyn 9 ymlaen bydd y Cynghorydd Gyrfa yn gweithio gyda'ch mab/merch yn yr ysgol, gan roi cyfarwyddyd gyrfaedd unigol a sesiynau grŵp fel sy'n addas. Bydd y Cynghorydd Gyrfa yn helpu eich plentyn i symud ymlaen o'r ysgol pan ddaw'r amser. Croesawn y cyfle i weithio'n agos gyda rhieni, athrawon, gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill i roi'r gefnogaeth sydd ei hangen ar ddisgyblion.

Bydd y Cynghorydd Gyrfa yn:

- gweld pobl ifanc yn yr ysgol o 13 oed ymlaen mewn grwpiau ac yn unigol
- eu trin fel unigolion gyda'u hanghenion a'u galluoedd eu hunain
- eu helpu i feddwl beth mae nhw'n dda am ei wneud
- siarad gyda nhw am eu dyfodol
- rhoi cyngor ar weithgareddau cysylltiedig â gwaith lle mae hyn yn addas ar gyfer y disgybl
- mynychu Adolygiadau Pontio, lle bynnag y bo'n bosibl
- cynhyrchu cynllun gweithredu yn disgrifio'r dewisiadau sydd ar gael i'ch mab/merch
- os gwneir cais, trefnu i ddisgyblion a rhieni ymweld â cholegau a/neu ddarparwyr hyfforddiant
- helpu disgyblion i symud ymlaen o'r ysgol
- cynhyrchu Cynllun Dysgu a Sgiliau i ddynodi unrhyw ofynion cymorth mewn coleg/hyfforddiant, os yn addas
- gweithio gyda phobl ifanc ar ôl iddynt adael yr ysgol.

## Cynllun Dysgu a Sgiliau

Os oes gan eich plentyn ddatganiad o anghenion addysgol arbennig daw hyn i ben pan fyddant yn gadael yr ysgol. Fodd bynnag, os yw'ch plentyn yn ystyried mynd i goleg neu hyfforddiant, bydd eu Cynghorydd Gyrfa yn paratoui Cynllun Dysgu a Sgiliau fel sy'n ofynnol dan Adran 140 Deddf Dysgu a Sgiliau.

Bydd y Cynllun Dysgu a Sgiliau yn dynodi eu hanghenion addysgol a hyfforddiant a'r gefnogaeth a'r ddarpariaeth sydd eu hangen i ddiwallu'r anghenion hynny. Caiff ei seilio ar:

- drafodaethau gyda chi a'ch plentyn yn ystod y broses cynllunio pontio a chyfweliadau gyrfaoedd
- gwybodaeth gan athrawon, a
- gwybodaeth gan arbenigwyr eraill sydd wedi gweithio gyda'ch plentyn

Gyda chaniatâd eich plentyn caiff y Cynllun Dysgu a Sgiliau ei drosglwyddo i'r coleg neu ddarparydd hyfforddiant fel y gallant drefnu i'r cymorth fod yn ei le. Caiff y Cynllun Dysgu a Sgiliau ei gynhyrchu a'i drosglwyddo yn ystod blwyddyn olaf eich plentyn yn yr ysgol.



## Opsiynau

Mae pum prif opsiwn ar gael i'ch plentyn ar ddiwedd blwyddyn 11:

- Aros yn yr ysgol
- Mynd i goleg
- Dechrau gwaith neu hyfforddiant
- Gwneud lleoliad gwaith gwirfoddol
- Mynd i ddarpariaeth gwasanaeth dydd

Mae'n ddoeth dechrau cynllunio'n gynnar beth bynnag mae'ch plentyn yn bwriadu ei wneud ar ddiwedd blwyddyn 11.





## Aros yn yr ysgol

Gall rhai pobl ifanc aros yn eu hysgol nes maent yn 19 oed. Gall aros yn yr ysgol roi cyfleoedd i gymryd lefel eang o gyrsiau. Gall Cynghorydd Gyrfaedd eich mab/merch roi gwybodaeth i chi am y cyrsiau sydd ar gael a lefelau cymhwyster.

Ar gyfer rhai pobl ifanc dros 16 oed, gall ysgolion gynnig rhaglenni amgen yn cynnwys sgiliau byw annibynnol, profiad gwaith, lleoliadau mewn coleg a gwasanaeth dydd a sgiliau sylfaenol. Bydd y rhain fel arfer yn arwain at gymhwyster cydnabyddedig.

Gall aros yn yr ysgol roi mwy o amser i fyfyrwyr baratoi ar gyfer y dyfodol a datblygu'r sgiliau y bydd eu hangen arnynt i symud ymlaen.

## Mynd i goleg lleol

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn mynd i'w coleg lleol yn ddyddiol. Gall colegau gynnig dewis a lefel eang o gyrsiau, yn academiaidd a hefyd yn gysylltiedig â gwaith. Mae colegau'n rhoi cefnogaeth ychwanegol i fyfyrwyr gydag anghenion arbennig i'w helpu i gael y budd gorau o'u cwrs astudiaeth. Gallai'r gefnogaeth yma gynnwys helpwyr personol, help gyda Mathemateg a/neu Saesneg/Cymraeg, amser ychwanegol gyda thiwtor, offer arbennig, cymerwyr nodiadau, cyfathrebwyr neu ddeunyddiau mewn Braille neu brint bras yn dibynnu ar anghenion unigol.



Mae cyrsiau coleg ar gael a gynlluniwyd yn arbennig ar gyfer myfyrwyr sydd angen cefnogaeth ychwanegol i ddatblygu eu sgiliau sylfaenol neu syniadau gyrfa. Mae'r cyrsiau'n amrywio ond fel arfer caiff myfyrwyr eu haddysgu mewn dosbarthiadau bach a chaiff rhaglenni astudiaeth eu teilwra i weddu i anghenion a galluoedd unigol. Yn fras, mae'r cyrsiau'n anelu at baratoi pobl ifanc ar gyfer bywyd fel oedolion drwy gynnig amrywiaeth o gyfleoedd blasu galwedigaethol, y cyfle i ennill cymwysterau a gwella sgiliau mewn Mathemateg, Saesneg/Cymraeg a chyfathrebu. Mae rhai myfyrwyr yn symud ymlaen o'r cyrsiau hyn i gwrs prif ffrwd o fewn y coleg. Gall y Cynghorydd Gyrfa roi manylion i chi am y cyrsiau sydd ar gael yn eich colegau lleol.

## Dysgu seiliedig ar waith

Bob blwyddyn mae canran fechan o ymadawyr ysgol gydag anghenion addysgol arbennig yn dechrau ar raglenni hyfforddiant lleol. Mae'r rhain yn rhoi cyfle i bobl ifanc gael sgiliau seiliedig ar waith a chymwysterau mewn canolfan hyfforddiant neu gyda chyflogwr lleol.

Mae yna wahanol fathau o hyfforddiant a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Caiff pobl ifanc gyfle i ddechrau ar raglen baratoi i'w helpu i adeiladu hyder mewn sefyllfa waith. Bydd cyfle iddynt wedyn symud ymlaen i hyfforddiant pellach i'w galluogi i weithio i ennill Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol (NVQs) mewn maes gwaith neilltuol.

Gall pobl ifanc yr asesir bod ganddynt anghenion hyfforddiant arbennig gael help a chefnogaeth ychwanegol i'w galluogi i orffen hyfforddiant yn llwyddiannus. Caiff yr help ychwanegol yma ei asesu gan y Cynghorydd Gyrfa a'i gytuno gyda'r person ifanc



cyn iddynt fynd i hyfforddiant. Cynhelir adolygiadau drwy gydol yr hyfforddiant er mwyn trafod cynnydd.

Mae nifer o opsiynau hyfforddiant yn arwain at wahanol lefelau o gymhwyster. Gall y Cynghorydd Gyrfa roi gwybodaeth fwy manwl i chi am gyfleoedd lleol o fewn hyfforddiant.

## Cael swydd

Mae nifer fach o bobl ifanc yn mynd yn syth i gyflogaeth o'r ysgol. Os mai dyma'r opsiwn mwyaf addas, gall y Cynghorydd Gyrfa helpu gyda sgiliau chwilio am swydd a gall roi cyngor a gwybodaeth ar sgiliau cyfweiliad a sut i lenwi ffurflenni cais neu ysgrifennu CV. Gall pobl ifanc hefyd gael mynediad i gyfleoedd Twf Swyddi Cymru neu gefnogaeth ar gyfer cyflogaeth gan y Ganolfan Byd Gwaith.

## Cyflogaeth â chymorth

Mae sefydliadau a all helpu pobl i ddod o hyd i gyflogaeth â chymorth. Gall y sefydliadau hyn gynnig:

- Cefnogaeth i gyflogwyr sy'n cynnig gwaith i berson ifanc gydag anghenion addysgol arbennig.
- Cefnogaeth ar ffurf hyfforddwr swydd i alluogi person ifanc i ddysgu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer swydd benodol.



## Gwaith gwirfoddol

Os yw pobl ifanc eisiau gweithio ond heb fod yn barod eto am swydd gyflogedig, gallent wneud gwaith gwirfoddol. Gall hyn helpu i ddatblygu sgiliau a hyder yn ogystal â rhoi profiad gwaith defnyddiol. Mae gwirfoddolwyr yn cymryd rhan ym mhob math o weithgareddau a phrosiectau. Gall faint o amser y mae gwirfoddolwr yn ei ymrwmo amrywio o gymryd rhan unwaith yn unig i ymrwymiad rheolaidd am gwpl o oriau yr wythnos (neu fwy os oes ganddynt amser).



## Cyfleoedd gwasanaeth dydd

I rai pobl ifanc, efallai mai gwasanaethau dydd fydd y dewis mwyaf addas. Caiff gwasanaethau dydd eu darparu gan adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol neu fudiadau gwirfoddol.

Mae nifer o opsiynau, yn dibynnu beth sydd ar gael yn yr ardal leol ond gallent gynnwys sgiliau byw bob dydd, gweithgareddau hamdden, hyfforddiant galwedigaethol, prosiectau cymunedol a gwirfoddol, cysylltiadau coleg neu brofiad gwaith.

Byddai angen i chi drafod yr opsiwn yma gyda'r gwasanaethau cymdeithasol.





## Colegau arbenigol

Bob blwyddyn mae nifer fach o fyfyrwyr na all darpariaeth leol gyflawni eu hanghenion addysgol yn llawn yn mynd i golegau arbenigol. Mae colegau preswyl yng Nghymru a Lloegr sy'n cynnig cyrsiau ar gyfer pobl ifanc gydag anghenion addysgol arbennig.

Gall byw i ffwrdd o gartref roi cyfle i fyfyrwyr ddysgu sgiliau newydd ac i ddod yn fwy aeddfed ac annibynnol.

Mae cael lle ar y cyrsiau hyn yn amodol ar gyllid gan Llywodraeth Cymru ac efallai gan wasanaethau cymdeithasol a/neu gwasanaethau iechyd. Gall Cynghorwyr Gyrfa roi mwy o wybodaeth am gyrsiau mewn colegau preswyl a bydd yn gwneud y cais am gyllid.

## Materion ariannol

Mae amrywiaeth o lwfansau a grantiau ar gael i deuluoedd a phobl ifanc. Mae'r rhan fwyaf o lwfansau yn dibynnu ar amgylchiadau personol. I gael mwy o wybodaeth ewch i [www.gov.uk](http://www.gov.uk) neu ffoniwch 0800 882 200.

18 - cynllunio ar gyfer y dyfodol



## Cysylltiadau Defnyddiol:

### [www.snapcymru.org](http://www.snapcymru.org)

Mae SNAP Cymru yn gweithio gyda theuluoedd a gweithwyr proffesiynol i sicrhau y caiff anghenion pobl ifanc eu dynodi a bod darpariaeth ar gael i'w helpu i gyflawni eu potensial.

### [www.rnib.org.uk/wales-cymru-1](http://www.rnib.org.uk/wales-cymru-1)

Mae RNIB Cymru yn darparu gwasanaethau a chefnogaeth i bobl ddall a phobl sydd â nam ar eu golwg ar draws Cymru, yn ogystal ag ymgyrchu am welliannau i wasanaethau i atal colli golwg osgoadwy.

### [www.scope.org.uk](http://www.scope.org.uk)

Mae Scope Cymru yn cynnig gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth gyfrinachol yn rhad ac am ddim ar amrywiaeth o faterion i bobl anabl, eu teuluoedd a gweithwyr proffesiynol yng Nghymru. I gael gwybodaeth ar anabledd ffoniwch 0808 800 3333.

### [www.cafamily.org.uk](http://www.cafamily.org.uk)

Mae Contact a Family Cymru yn elusen sy'n gweithio ar draws Cymru i gefnogi teuluoedd plant gydag anableddau neu anghenion ychwanegol,

beth bynnag yw eu cyflwr neu anabledd. Llinell gymorth rhadffôn: 0808 808 3555.

### [www.autism.org.uk/wales](http://www.autism.org.uk/wales)

Mae National Autistic Society Cymru yn elusen sy'n gweithio ar draws Cymru i ddarparu gwybodaeth, cefnogaeth a gwasanaethau, ac ymgyrchu dros well byd i bobl gydag awtistiaeth (yn cynnwys syndrom Asperger), eu teuluoedd a gofalwyr.

### [www.asdinfowales.co.uk](http://www.asdinfowales.co.uk)

Mae ASD Info Cymru yn codi ymwybyddiaeth o Awtistiaeth drwy ddatblygu polisi, darparu gwybodaeth, cefnogaeth a gwasanaethau cyngor a hyfforddi gweithwyr proffesiynol.

### [www.ldw.org.uk](http://www.ldw.org.uk)

Mae Anabledd Dysgu Cymru yn elusen genedlaethol sy'n cynrychioli'r sector anabledd dysgu yng Nghymru. Mae'n gweithio gyda phobl gydag anabledd dysgu, llywodraeth a'r sector gwirfoddol i greu Cymru well ar gyfer pobl gydag anabledd dysgu.

cynllunio ar gyfer y dyfodol - 19

### **[www.actiononhearingloss.org.uk](http://www.actiononhearingloss.org.uk)**

02920 333034

Mae Action on Hearing Loss Cymru yn darparu cefnogaeth i bobl sy'n fyddar, pobl sydd wedi colli eu clyw a phobl sydd â thinitws. Maent yn darparu gwasanaethau cyngor, gofal a chefnogaeth, gwasanaethau cyfathrebu a hyfforddiant.

### **[www.plantynghymru.org.uk](http://www.plantynghymru.org.uk)**

Mae Plant yng Nghymru yn darparu gwasanaethau ar gyfer rhai sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghymru. Eu nod yw gwella bywyd pawb ohonynt, ond yn arbennig y rhai y mae ansefydlogrwydd teuluol, tlodi ac amddifadedd yn effeithio arnynt neu sydd ag anghenion arbennig/anableddau.

### **[www.walesdyslexia.org.uk](http://www.walesdyslexia.org.uk)**

Mae Dyslecsia Cymru yn cynnig cyngor a chefnogaeth i unigolion, cyrff trydydd sector, cyrff cyhoeddus a busnesau preifat. Mae eu gwasanaethau yn cynnwys: llinell gymorth ddwyieithog rhad ac am ddim; sgrinio am ddyslecsia; asesiadau gweithle; cyrsiau a digwyddiadau.

### **[www.remploy.co.uk](http://www.remploy.co.uk)**

Fel darparydd gwasanaethau cyflogaeth anabledd yng Nghymru, cenhadaeth Remploy yw helpu i gefnogi pobl anabl i waith, tra'n gweithio gyda chyflogwyr i sicrhau y gallant recriwtio, cadw a chynnal unigolion.

### **[www.agoriad.org.uk](http://www.agoriad.org.uk)**

Mae Agoriad Cyf yn ddarparydd recriwtio a hyfforddiant arbenigol. Maent yn helpu pobl i sicrhau mwy o annibyniaeth a gwireddu eu potensial o fewn y gweithle.

### **[www.elitesea.co.uk](http://www.elitesea.co.uk)**

Mae Elite yn elusen sy'n gweithio gyda phobl gydag anableddau neu rai dan anfantais ar draws De a De Orllewin Cymru. Mae Elite yn cefnogi pobl gyda chyfleoedd galwedigaethol, hyfforddiant a chyflogaeth drwy annibyniaeth.

### **[www.shaw-trust.org.uk](http://www.shaw-trust.org.uk)**

Mae Ymddiriedolaeth Shaw yn cefnogi pobl anabl a dan anfantais i gael cyflogaeth drwy naill ai Ddewis Gwaith neu'r Rhaglen Waith. Mae'r gefnogaeth yn cynnwys help i baratoi ar gyfer gwaith, help gyda chyflogaeth a rheoli anabledd.